O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 19

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*4 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 19

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (No. 2) (Wales) Regulations 2026

Made	*2 February 2026*
Coming into force	*4 March 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 19

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Mae rheoliad 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso.

Mae rheoliadau 2 i 6 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau a ganlyn—

(a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"),

(b) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"),

(d) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol"), ac

(e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ym mhob un o'r Rheoliadau hynny i gynnwys personau a chanddynt ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd o dan Lwybr Ymateb Affganistan, fel bod personau o'r fath yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw ymhellach yn Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, fel ei bod yn ofynnol i bersonau o'r fath fod â chaniatâd sy'n bodoli eisoes i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr o dan y Rheoliadau

hynny, yn unol â gofynion cyfatebol ar gyfer personau o'r fath o dan Reoliadau 2007 a Rheoliadau 2015. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân newidiadau cysylltiedig i'r diffiniad hwnnw yn Rheoliadau 2007 a Rheoliadau 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 19

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*4 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a) a (2)(a), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**).

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Mawrth 2026.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth, ac â ffioedd a dyfarndaliadau sy'n gymwys, mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau

(**1**) 1983 p. 40. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238 (Cy. 243), Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33; a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1), Atodlen 4, paragraff 2. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30. Diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458), erthygl 2(a). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44(1) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

ar neu ar ôl 1 Awst 2026, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

2. Yn Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan"—

(a) ym mharagraffau (a) a (b), ar ôl "Deyrnas Unedig", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "a roddwyd", ac ym mharagraffau (c) ac (ch), ar ôl "aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd";

(b) ar ôl paragraff (c) hepgorer "neu";

(c) ar ôl paragraff (ch) mewnosoder—

"neu

(d) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan(**6**);".

Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

3. Yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan"—

(a) ym mharagraffau (a) a (b), ar ôl "Deyrnas Unedig", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "a roddwyd", ac ym mharagraffau (c) a (d), ar ôl "aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd";

(b) ar ôl paragraff (c) hepgorer "neu";

(c) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"neu

(e) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan;".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

4. Yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**8**), yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyriwyr cymwys), ym mharagraff 2ZA (categori 2ZA - personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd), yn is-baragraff (4)(ea)—

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1349 (Cy. 243); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) Terfynwyd Llwybr Ymateb Affganistan ar 4 Gorffennaf 2025. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r llwybr hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/afghanistan-response-route.

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1349 (Cy. 243); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**8**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), 2022/79 (Cy. 28), 2023/633 (Cy. 97) a 2023/1349 (Cy. 243).

(a) ym mhob un o is-baragraffau (i), (ib) a (iii), yn lle “y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd amhenodol” ac yn is-baragraff (ii), yn lle “y rhoddwyd caniatâd iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd”;

(b) yn is-baragraffau (i) ac (ib), ar ôl “Deyrnas Unedig”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “a roddwyd”, ac yn is-baragraffau (ii) a (iii), ar ôl “aros ynddi” mewnosoder “a roddwyd”;

(c) ar ôl is-baragraff (ii) hepgorer “neu”;

(d) ar ôl is-baragraff (iii) mewnosoder—

“neu

(v) a chanddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i’r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan,”.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

5. Yn Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**9**), yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan”—

(a) ym mhob un o’r paragraffau (a), (ab) ac (c), yn lle “y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd amhenodol”, ac yn is-baragraff (b), yn lle “y rhoddwyd caniatâd iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd”;

(b) ym mharagraffau (a) ac (ab), ar ôl “Deyrnas Unedig”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “a roddwyd”, ac ym mharagraffau (b) ac (c), ar ôl “aros ynddi” mewnosoder “a roddwyd”;

(c) ar ôl paragraff (b), hepgorer “neu”;

(d) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

“neu

(e) a chanddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i’r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan;”.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

6. Yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**10**), yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2A (categori 2A - personau a ddiogelir ac aelodau o’u teuluoedd), yn is-baragraff (4)(da)—

(a) ym mhob un o is-baragraffau (i), (ib) a (iii), yn lle “y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd amhenodol”, ac yn is-baragraff (ii), yn lle “y rhoddwyd caniatâd iddo” rhodder “a chanddo ganiatâd”;

(b) yn is-baragraffau (i) ac (ib), ar ôl “Deyrnas Unedig”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “a roddwyd”, ac yn is-baragraffau (ii) a (iii), ar ôl “aros ynddi” mewnosoder “a roddwyd”;

(**9**) O.S. 2018/656 (Cy. 124); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2022/403 (Cy. 100), 2023/633 (Cy. 97) a 2023/1349 (Cy. 243).

(**10**) O.S. 2019/895 (Cy. 161); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), 2022/403 (Cy. 100), 2023/633 (Cy. 97) a 2023/1349 (Cy. 243).

(c) ar ôl is-baragraff (ii) hepgorer “neu”;

(d) ar ôl is-baragraff (iii) mewnosoder—

“neu

(v) a chanddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i’r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan;”.

Vikki Howells
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
2 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 19

EDUCATION, WALES

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (No. 2) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend various Regulations which make provision about, and in connection with, student finance.

Regulation 1 makes provision about the coming into force and application of these Regulations.

Regulations 2 to 6 make amendments to the following Regulations—

(a) the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007 ("the 2007 Regulations"),

(b) the Higher Education (Qualifying Courses, Qualifying Persons and Supplementary Provision) (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations"),

(c) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations"),

(d) the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018 ("the Doctoral Degree Loan Regulations"), and

(e) the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019 ("the 2019 Regulations").

These Regulations amend the definition of a "person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen" in each of those Regulations to include persons who have indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted under the Afghanistan Response Route, so that such persons are eligible for home fee status, the fee limits and student support.

These Regulations further revise that definition in the 2018 Regulations, the Doctoral Degree Loan Regulations and the 2019 Regulations, so that such persons are required to have existing leave to enter or remain in the United Kingdom in order to be eligible for student support under those Regulations, in accordance with equivalent requirements

for such persons under the 2007 Regulations and the 2015 Regulations. These Regulations also make related minor changes to that definition in the 2007 Regulations and the 2015 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Tertiary Education Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2026 No. 19

EDUCATION, WALES

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (No. 2) (Wales) Regulations 2026

Made	*2 February 2026*
Coming into force	*4 March 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 1 and 2 of the Education (Fees and Awards) Act 1983(**1**) and sections 22(1)(a) and (2)(a), and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**2**), and now exercisable by them(**3**), and powers conferred on them under sections 5(5)(b) and 55(2) of the Higher Education (Wales) Act 2015(**4**).

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (No. 2) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 4 March 2026.

(3) These Regulations apply in relation to the provision of support, and to fees and awards applicable, in relation to an academic year which begins on or after 1 August

(**1**) 1983 c. 40. Section 1 was amended by the Education Reform Act 1988 (c. 40), Schedule 12, paragraph 91; the Further and Higher Education Act 1992 (c. 13), Schedule 8, paragraph 19; the Education Act 1994 (c. 30), Schedule 2, paragraph 7; the Education Act 1996 (c. 56), Schedule 37, paragraph 57; the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), Schedule 9, paragraphs 1 and 11; the Education Act 2002 (c. 32), Schedule 21, paragraph 5 and Schedule 22; the Education Act 2005 (c. 18), Schedule 14, paragraph 9; S.I. 2005/3238 (W. 243), Schedule 1, paragraph 9; S.I. 2010/1080, Schedule 1, paragraph 12; S.I. 2010/1158, Schedule 2, paragraph 1; the Education Act 2011 (c. 21), Schedule 5, paragraph 5 and Schedule 16, paragraph 5; the Deregulation Act 2015 (c. 20), Schedule 14, paragraph 33; and the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1), Schedule 4, paragraph 2. Section 2 was amended by the Teaching and Higher Education Act 1998 (c. 30), Schedule 4.

(**2**) 1998 c. 30. Section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000, section 146(2)(a). *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**3**) The functions of the Secretary of State in section 1 of the Education (Fees and Awards) Act 1983 were transferred to the National Assembly for Wales, so far as exercisable in relation to Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2006 (S.I. 2006/1458), article 2(a). The functions of the Secretary of State in section 2 of that Act were transferred to the National Assembly for Wales, so far as exercisable in relation to Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1. The function of the Secretary of State in section 22(1)(a) of the Teaching and Higher Education Act 1998 was transferred to the National Assembly for Wales, so far as it relates to making provision in relation to Wales, by section 44(1) of the Higher Education Act 2004 (c. 8). Section 44(2) of the Higher Education Act 2004 provided that the function in section 22(2)(a) of the Teaching and Higher Education Act 1998 was to be exercised by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State, so far as it relates to making provision in relation to Wales. The Secretary of State's function in section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998, in so far as being exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**4**) 2015 anaw 1. *See* section 57(1) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

2026, whether or not anything done under these Regulations is done before, on or after that date.

Amendments to the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007

2. In the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007(**5**), in the Schedule, in paragraph 1, in the definition of "person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen"—

(a) in each of paragraphs (a), (b), (c) and (d), after "United Kingdom", in each place it occurs, insert "granted";

(b) after paragraph (c) omit "or";

(c) after paragraph (d) insert—

"or

(e) indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted outside the immigration rules on the basis of the Afghanistan Response Route(**6**);".

Amendments to the Higher Education (Qualifying Courses, Qualifying Persons and Supplementary Provision) (Wales) Regulations 2015

3. In the Higher Education (Qualifying Courses, Qualifying Persons and Supplementary Provision) (Wales) Regulations 2015(**7**), in the Schedule, in paragraph 1(1), in the definition of "person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen"—

(a) in each of paragraphs (a), (b), (c) and (d), after "United Kingdom", in each place it occurs, insert "granted";

(b) after paragraph (c) omit "or";

(c) after paragraph (d) insert—

"or

(e) indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted outside the immigration rules on the basis of the Afghanistan Response Route;".

Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018

4. In the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**8**), in Schedule 2 (categories of eligible student), in paragraph 2ZA (category 2ZA - protected persons and their family members), in sub-paragraph (4)(ea)—

(a) in the words before sub-paragraph (i), for "granted" substitute "who has";

(b) in each of sub-paragraphs (i), (ib), (ii) and (iii), after "United Kingdom", in each place it occurs, insert "granted";

(c) after sub-paragraph (ii) omit "or";

(d) after sub-paragraph (iii) insert—

"or

(**5**) S.I. 2007/2310 (W. 181), amended by S.I. 2023/1349 (W. 243); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**6**) The Afghanistan Response Route was discontinued on 4 July 2025. Ministry of Defence guidance in relation to this route is available here: https://www.gov.uk/guidance/afghanistan-response-route.

(**7**) S.I. 2015/1484 (W. 163), amended by S.I. 2023/1349 (W. 243); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**8**) S.I. 2018/191 (W. 42); relevant amending instruments are S.I. 2021/481 (W. 148), 2022/79 (W. 28), 2023/633 (W. 97) and 2023/1349 (W. 243).

(v) indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted outside the immigration rules on the basis of the Afghanistan Response Route,".

Amendments to the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018

5. In the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018(**9**), in regulation 2 (interpretation), in paragraph (1), in the definition of "person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen"—

(a) in the words before paragraph (a), for "granted" substitute "who has";

(b) in each of paragraphs (a), (ab), (b) and (c), after "United Kingdom", in each place it occurs, insert "granted";

(c) after paragraph (b) omit "or";

(d) after paragraph (c) insert—

"or

(e) indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted outside the immigration rules on the basis of the Afghanistan Response Route;".

Amendments to the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019

6. In the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019(**10**), in Schedule 2 (categories of eligible students), in paragraph 2A (category 2A - protected persons and their family members), in sub-paragraph (4)(da)—

(a) in the words before sub-paragraph (i), for "granted" substitute "who has";

(b) in each of sub-paragraphs (i), (ib), (ii) and (iii), after "United Kingdom", in each place it occurs, insert "granted";

(c) after sub-paragraph (ii) omit "or";

(d) after sub-paragraph (iii) insert—

"or

(v) indefinite leave to enter or remain in the United Kingdom granted outside the immigration rules on the basis of the Afghanistan Response Route;".

(**9**) S.I. 2018/656 (W. 124); relevant amending instruments are S.I. 2022/403 (W. 100), 2023/633 (W. 97) and 2023/1349 (W. 243).

(**10**) S.I. 2019/895 (W. 161); relevant amending instruments are S.I. 2021/481 (W. 148), 2022/403 (W. 100), 2023/633 (W. 97) and 2023/1349 (W. 243).

Vikki Howells
Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
2 February 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839789-5

9 780348 397895